# Canllawiau ar gyfer Dangosfwrdd MyView

## Ffurflenni Blaenorol
## Canllawiau i Ddefnyddwyr

Adolygwyd Mawrth 2021

carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Table of Contents

**Ffurflenni Blaenorol** ........ 3


**Arddangos yr Holl Ffurflenni** ........ 3
**Chwilio drwy Ffurflenni:** ........ 4
**Chwilio am Allweddair** ........ 4
**Chwilio yn ôl Dyddiad** ........ 4
**Chwilio am Ddigwyddiad** ........ 4
**Chwilio yn ôl Statws** ........ 5
**Gweld y Manylion Awdurdodi** ........ 6

# Ffurflenni Blaenorol

## Arddangos yr Holl Ffurflenni

Mae'r Modiwl Ffurflenni Blaenorol yn caniatáu i chi fonitro cynnydd unrhyw ffurflen rydych wedi'i chreu ar MyView.  Bydd y modiwl yn dangos statws presennol eich ffurflenni (Ar agor, Wedi'i hawdurdodi, Wedi'i gwrthod, Wedi'i chyflwyno).

**Mewngofnodwch i MyView**, dewiswch **Form History** ar y Dangosfwrdd.





Mae'r **Disgrifiad** yn dangos enw'r ffurflen a'ch enw chi. Dangosir y dyddiadau ar gyfer unrhyw wyliau a cheisiadau am absenoldeb yma hefyd.
Mae'r golofn **Digwyddiad** yn nodi'r math o ffurflen.
Mae'r golofn **Statws** yn dangos statws presennol y ffurflen.
Mae'r golofn **Dyddiad diweddaru** yn dangos pryd y cafodd y ffurflen ei diweddaru ddiwethaf.

# Chwilio drwy Ffurflenni:

## Chwilio am Allweddair


Lleihau nifer y ffurflenni a ddangosir drwy osod hidlyddion neu drwy ddefnyddio allweddeiriau i chwilio.




Yn y blwch **Chwilio am Allweddair** nodwch y math o ffurflen e.e. gwyliau. Cliciwch ar y botwm **Chwilio.** Bydd unrhyw beth sy'n cyd-fynd â'r allweddair yn ymddangos yn y dudalen Canlyniadau.

## Chwilio yn ôl Dyddiad


I chwilio am ffurflenni a gyflwynwyd/a weithredwyd ar adeg benodol neu dros gyfnod. Rhowch y dyddiad yn y maes **Dyddiad o**, a'r maes **Dyddiad i** os oes angen.




## Chwilio am Ddigwyddiad


Chwilio am y math o ffurflen y mae angen ei gweld. **Cliciwch ar y saeth sy'n pwyntio i lawr** sydd i'r dde o'r Hidlydd Digwyddiad (ffurflenni sydd wedi'u cwblhau yn eich cofnod).

**Ticiwch/dad-diciwch** y ffurflenni yr ydych yn dymuno'u gweld/nad ydych yn dymuno'u gweld. **Cliciwch ar Chwilio**




Chwilio yn ôl Statws

I chwilio yn ôl statws y ffurflenni. **Cliciwch ar y saeth sy'n pwyntio i lawr** sydd i'r dde o'r Hidlydd Statws a **thiciwch/dad-diciwch** statws y ffurflenni yr hoffech eu gweld/na hoffech eu gweld. **Cliciwch ar Chwilio.**





Cliciwch ar **Clirio'r Chwiliad** os hoffech ailosod yr hidlyddion yr ydych wedi'u defnyddio.

# Gweld y Manylion Awdurdodi

Gwirio cynnydd ffurflen a gweld pwy sydd wedi awdurdodi'r ffurflen a phryd, neu gyda phwy y mae'r ffurflen ar gyfer ei hawdurdodi.


**Cliciwch ar y saeth sy'n pwyntio i lawr** sydd i'r dde o bob ffurflen sydd wedi'i chreu.





Bydd y ffurflen yn ehangu i ddangos y manylion ynghylch creu'r ffurflen.

**Noder:** Mae'r testun glas ar gyfer disgrifiad y ffurflen yn hyperddolen i'r ffurflen ei hun. Bydd clicio ar y testun glas hwn yn agor y ffurflen wedi'i chwblhau.

**Cliciwch y botwm â lliw** (naill ai'n oren neu'n wyrdd) a bydd ffenestr ychwanegol yn agor i ddangos manylion y person sy'n aros i awdurdodi'r ffurflen neu sydd wedi awdurdodi'r ffurflen.






Cliciwch ar y botwm **Cau** i gau'r ffenestr hon.

Os bydd angen unrhyw gymorth pellach arnoch mae croeso i chi anfon neges e-bost atom gan nodi'ch rhif gweithiwr a disgrifiad byr. [resourcelink@sirgar.gov.uk](mailto:resourcelink@sirgar.gov.uk)